Y Bil Awtistiaeth (Cymru)

Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth sydd i'w gwneud o dan y Bil hwn

Medi 2018

Y BIL AWTISTIAETH (CYMRU)

DATGANIAD O FWRIAD Y POLISI AR GYFER IS-DDEDDFWRIAETH

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu bwriad y polisi presennol ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth y byddai darpariaethau'r Bil Awtistiaeth (Cymru) ('y Bil') yn galluogi Gweinidogion Cymru i'w gwneud. Fe'i paratowyd i gynorthwyo pwyllgorau yn ystod y broses o graffu ar y Bil a dylid ei darllen ar y cyd â'r Bil a'r Memorandwm Esboniadol a'r Nodiadau Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil.

Diben y Bil yw sicrhau bod anghenion plant ac oedolion ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth yng Nghymru yn cael eu diwallu a diogelu a hyrwyddo eu hawliau.

Mae'r Bil yn cyflawni'r diben hwn drwy geisio:

1. Cyflwyno strategaeth ar gyfer diwallu anghenion plant ac oedolion yng Nghymru sydd â chyflyrau anhwylder sbectrwm awtistiaeth a fydd yn:

    - hyrwyddo'r arferion gorau wrth wneud diagnosis o anhwylder sbectrwm awtistiaeth, ac asesu a chynllunio ar gyfer diwallu anghenion gofal;

    - sicrhau llwybr clir a chyson i wneud diagnosis o anhwylder sbectrwm awtistiaeth mewn ardaloedd lleol;

    - sicrhau bod awdurdodau lleol a chyrff y GIG yn cymryd camau angenrheidiol fel bod plant ac oedolion ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth yn cael y diagnosis a'r cymorth amserol sydd eu hangen arnynt ar draws amryw wasanaethau;

    - cryfhau'r cymorth i deuluoedd a gofalwyr a sicrhau bod eu dymuniadau hwy, a dymuniadau pobl ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth, yn cael eu hystyried;

    - hyrwyddo gwaith ymchwil, arloesedd a gwelliant mewn gwasanaethau ar gyfer anhwylder sbectrwm awtistiaeth;

    - sefydlu arferion i hwyluso'r gwaith o gasglu data dibynadwy a pherthnasol ar nifer y plant ac oedolion sydd ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth, a'u hanghenion, fel y gall Gweinidogion Cymru, cyrff lleol a chyrff y GIG gynllunio yn unol â hynny;

    - sicrhau bod staff allweddol sy'n gweithio gyda phobl ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth yn cael hyfforddiant priodol yn y maes; ac

    - adolygu'r strategaeth a'r canllawiau yn rheolaidd er mwyn sicrhau cynnydd.

2. Ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i'r cyrff perthnasol ar weithredu'r strategaeth.

3. Ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gasglu data addas i hwyluso gweithrediad y Bil.

4. Ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgymryd ag ymgyrch i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o anhwylderau sbectrwm awtistiaeth.

Er hwylustod, mae'r Datganiad hwn yn cynnwys y pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth a geir yn y Bil ac mae'n cyfateb i'r wybodaeth a ddarperir ym Mhennod 6 o'r Memorandwm Esboniadol.

Mae Adran 11 o'r Bil yn nodi y bydd holl ddarpariaethau'r Bil yn dod i rym dri mis ar ôl i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol.

RHEOLIADAU YNGHYLCH	rhagnodi categorïau ychwanegol o ddata sydd i'w casglu gan gyrff y GIG
ADRAN	Adran 6(6)(j)
GWEITHDREFN	Cadarnhaol

DISGRIFIAD O'R PŴER

Mae'r pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi drwy reoliadau gategorïau ychwanegol o ddata i'w casglu gan gyrff y GIG (fel y'u diffinnir gan adran 9 (1)).

PAM Y MAE ANGEN Y PŴER I WNEUD RHEOLIADAU

Mae'r pŵer hwn yn rhoi hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ychwanegu categorïau ychwanegol o ddata i'w casglu gan gyrff y GIG yn y dyfodol, os tybir bod angen gwneud hynny.

BWRIAD POLISI Y RHEOLIADAU

Mae Adran 6(6) yn nodi categorïau o ddata sydd i'w casglu gan gyrff y GIG i'w cynorthwyo i roi diagnosis i bobl ag anhwylderau sbectrwm awtistiaeth a darparu gwasanaethau iddynt, ac i alluogi cyrff y GIG i ddarparu data dibynadwy ar anhwylderau sbectrwm awtistiaeth i Weinidogion Cymru.

Er budd tryloywder ac eglurdeb, nodir ar wyneb y Bil y prif gategorïau o ddata y mae'n rhaid i gyrff y GIG eu casglu. Lluniwyd y rhestr hon o gategorïau o ddata ar ôl cael cyngor gan arbenigwyr casglu data ac ymarfer clinigol mewn gwasanaethau anhwylder sbectrwm awtistiaeth ac ystyrir eu bod yn cyrraedd y safon ofynnol o ran bodloni swyddogaethau diagnosis, cynllunio gwasanaethau a datblygu gwasanaethau anhwylder sbectrwm awtistiaeth yng Nghymru. Fodd bynnag, pe deuai'n amlwg bod angen ehangu'r rhestr hon yn y dyfodol, mae'r pŵer hwn yn rhoi hyblygrwydd i Weinidogion Cymru wneud hynny.

RHEOLIADAU YNCHYLCH	y diffiniad o 'anhwylder sbectrwm awtistiaeth' at ddibenion y Bil ac unrhyw anhwylderau niwroddatblygiadol arall a ragnodir gan Weinidogion Cymru.
ADRAN	Adran 9(1), i'w weld o dan ystyr "anhwylder sbectrwm awtistiaeth"
GWEITHDREFN	Cadarnhaol

DISGRIFIAD O'R PŴER

At ddibenion y Bil, diffinnir 'anhwylder sbectrwm awtistiaeth' drwy gyfeirio at Ddosbarthiad Rhyngwladol o Glefydau Sefydliad Iechyd y Byd.

Mae'r pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi drwy reoliadau, anhwylderau niwroddatblygiadol eraill i'w cynnwys yn y diffiniad o 'anhwylder sbectrwm awtistiaeth' (Adran 9(1)).

PAM Y MAE ANGEN Y PŴER I WNEUD RHEOLIADAU

Efallai y bydd newidiadau i bolisi, neu efallai y daw tystiolaeth i'r amlwg y dylid cynnwys anhwylderau niwroddatblygiadol eraill o dan y ddeddfwriaeth hon.

BWRIAD POLISI Y RHEOLIADAU

Byddai'r pŵer hwn yn rhoi hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ymateb er mwyn mynd i'r afael ag anghenion pobl ag anhwylderau niwroddatblygiadol eraill, pe baent yn ystyried y dylid cynnwys anhwylderau o'r fath o dan y ddeddfwriaeth hon yn y dyfodol. Er enghraifft, gall yr adolygiad parhaus o'r strategaeth fel sy'n ofynnol gan adran 1(5) a'r adroddiad annibynnol cyfnodol ar ei chynnydd o dan adran 1(7) ddarparu tystiolaeth y gellir cymhwyso'r ddeddfwriaeth yn briodol i anhwylderau niwroddatblygiadol eraill a gwella'r diagnosis a'r driniaeth o'r fath anhwylderau.

RHEOLIADAU YNGYLCH	cwmpas y diffiniad o 'gyrff perthnasol' at ddibenion y Bil.
ADRAN	Adran 9(1), i'w weld o dan ystyr "corff perthnasol"
GWEITHDREFN	Cadarnhaol

DISGRIFIAD O'R PŴER

At ddibenion y Bil, ystyr 'corff perthnasol' yw awdurdod lleol, corff y GIG ac unrhyw gyrff eraill a ragnodir – Adran 9(1).

Mae'r pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi drwy reoliadau gyrff eraill y mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â'r strategaeth awtistiaeth, y canllawiau a darpariaethau eraill y Bil.

PAM Y MAE ANGEN Y PŴER I WNEUD RHEOLIADAU

Bydd y pŵer hwn i wneud rheoliadau yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi 'cyrff perthnasol' eraill y byddai darpariaethau'r Bil hwn yn berthnasol iddynt, pe bai hynny'n cael ei ystyried yn briodol a bod tystiolaeth i gefnogi'r gofyniad i gynnwys cyrff eraill o dan y ddeddfwriaeth hon.

BWRIAD POLISI Y RHEOLIADAU

'Cyrff perthnasol', sy'n cynnwys awdurdodau lleol (ar draws pob swyddogaeth) a chyrff y GIG (fel y'u diffinnir yn adran 9(1)), yw'r prif ddarparwyr neu gomisiynwyr o ran gwasanaethau i bobl ag anhwylderau sbectrwm awtistiaeth yng Nghymru ar hyn o bryd. Byddai'r pŵer hwn yn rhoi hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ragnodi cyrff eraill i adlewyrchu amgylchiadau sy'n newid yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau priodol ar gyfer anhwylderau sbectrwm awtistiaeth yn cael eu darparu'n barhaus.